**COFNODION**

**Dyddiad:** 6 Tachwedd 2002

**Amser:** 9.00 - 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Gwilym Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Julia Annand, Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | |

**9.00am i 9.10am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Mae Rhodri Glyn Thomas yn aelod o Bwyllgor Caerdydd Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Mae Dafydd Wigley yn derbyn nawdd gan Gyngor Llyfrau Cymru ac mae ei wraig yn aelod blaenllaw o'r gymuned gelfyddydol.
- Datganodd Lorraine Barrett ei buddiannau fel y'u rhestrwyd.
- Datganodd Rosemary Butler ei buddiannau fel y'u rhestrwyd.

**9.10am i 10.30am**

**Eitem 2: Adolygiad o'r Polisi ar Chwaraeon**

**CC 17-02(p.1a)**

**Pwnc 1 Adroddiadau o gyfarfodydd Rhanbarthol**

2.1 Mae'r Pwyllgorau Rhanbarth wedi bod yn trafod yr Adolygiad o'r Polisi ar Chwaraeon ac yn arbennig sut y gellid cael mwy o bobl i gymryd rhan. Dywedodd y Cadeirydd iddo fynd i gyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn Amlwch lle codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd Awdurdodau Lleol wedi cael eu hannog i gynnig consesiynau i bobl ifanc er mwyn eu denu i gyfleusterau hamdden. Er hynny, roedd rhaid i awdurdodau lleol ofalu bod eu cyfleusterau'n gost-effeithiol.
- Mae cyrff ariannu'n gyndyn i fentro rhoi arian i brosiectau newydd.
- Mae chwaraeon a hamdden yn arfau pwysig yn y frwydr yn erbyn ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

2.2 Dywedodd Delyth Evans iddi fynd i gyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth lle codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gwnaeth Pennaeth Hamdden Cyngor Sir Powys gyflwyniad lle dadleuodd nad oedd Adroddiad y Comisiwn Archwilio, 'Sport and Recreation: Learning from Audit, Inspection & Research' yn adlewyrchu'r sefyllfa ym Mhowys. Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r problemau sy'n wynebu

awdurdodau lleol wrth gystadlu â'r sector preifat. Er hynny, dim ond yr awdurdod lleol sy'n darparu cyfleusterau hamdden ym Mhowys.

- Y broblem fwyaf mewn ardaloedd gwledig sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan yw trafnidiaeth.
- Mae hybu chwaraeon a hamdden yn arwain at arbedion ariannol e.e. llai o wariant ar iechyd. Dylid rhoi'r arian hwn yn ôl yn y system er mwyn i'r manteision allu parhau.
- Nid yw Cyngor Sir Powys am fuddsoddi mewn gwasanaethau newydd. Y mae, yn hytrach, am gynnal y rhai y mae eisoes yn eu darparu.

**Pwnc 2 Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion: Adroddiad ar Waith y Tasglu**

2.3 Cyflwynwyd Julia Longville, cyn-gadeirydd y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, gan y Cadeirydd. Rhoddodd Ms Longville gyflwyniad ar waith y tasglu. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- Cafodd y Tasglu ei sefydlu i gynghori Llywodraeth y Cynulliad ar sut orau i hybu chwaraeon mewn ysgolion o gofio bywydau 'llonydd' plant heddiw ac mai'r ysgol yn aml yw'r unig le all dysgu arferion iachus iddynt.
- Roedd y sefyllfa'n amrywio'n fawr o un pen o'r wlad i'r llall a dibynnai'n aml ar brif athrawon a rheolwyr brwd sy'n sylweddoli pwysigrwydd addysg gorfforol. Mae angen rhannu arferion da.

- O ran hyfforddiant a datblygu, rhaid wrth lefel ofynnol o allu ar bob athro ac arolygydd.

- Gwelwyd bod lle ac adnoddau yn brin, yn enwedig ystafelloedd newid. Mae angen yr un lefel o adnoddau ar ysgolion ledled Cymru, pa le bynnag y bônt.
- Mae gan Gymru yr arbenigedd i wella safonau y campau mewn ysgolion ac mae angen dweud wrth blant am bwysigrwydd chwaraeon tra'u bod o dan ddylanwad ysgolion.
- Mae'n hanfodol cynnig addysg gorfforol o'r safon uchaf mewn ysgolion, nid yn unig er lles iechyd y plant ond hefyd er mwyn rhoi'r dechrau gorau posibl i ddarpar-bengampwyr.

- Dywedodd y Cadeirydd bod y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi y byddai £5 miliwn ar gael dros y 3 blynedd nesaf i roi prif argymhellion Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgolion Cymru ar waith. Bydd yr arian hwn yn ategu'r £48 miliwn i Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd.

**Pwnc 3 Chwaraeon mewn ysgolion**

2.4 Rhoddodd y Cynghorydd Phil Bevan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyflwyniad ar chwaraeon mewn ysgolion:

- Mae llawer o ddulliau da o ariannu cyfleusterau chwaraeon mewn ysgolion, megis cronfa Cist Gymunedol y Cyngor Chwaraeon a'r gronfa Cyfleoedd Newydd. Y broblem gyda chael gafael ar yr arian hwn yw nad yw'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yn cydfynd â'r flwyddyn academaidd. Mae hynny'n bwysig gan mai sefydliadau addysgol sy'n gyfrifol am ran fwyaf y ceisiadau.
- Wrth i blant fynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae angen gofalu eu bod yn para i gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae angen i lawer o'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan Fenter y Ddraig y Cyngor Chwaraeon yn yr ysgolion cynradd barhau yn yr ysgol uwchradd.
- Mae'r Cyngor Chwaraeon yn ariannwr blaenllaw erbyn hyn, yn hytrach nag yn brif ddarparwr

arbenigedd. Y gymuned yn hytrach na'r Cyngor sydd bellach yn cynnig mentrau datblygu.

- Mae'r arian ar gyfer y mentrau hyn yn dibynnu bod y cyfleusterau ar gael i'r gymuned ehangach ar ôl oriau ysgol.
- Mynegwyd pryder nad oedd y gydnabyddiaeth a roddir i athrawon sy'n cynnal gweithgareddau chwaraeon ar ôl oriau ysgol wastad yn gyson nac yn gyffredin.
- Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn cadw golwg bod argymhellion y tasglu yn cael eu rhoi ar waith.

Yn y drafodaeth ar y ddau gyflwyniad, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae Caerffili yn gobeithio denu'r henoed i ddefnyddio'i gyfleusterau hamdden mewn ysgolion er bod perygl y gallai hynny arwain at gystadlu â'r canolfannau hamdden.
- Ni wneir y gorau o wirfoddolwyr i helpu gydag addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion.
- Teimlwyd bod lle i athletwyr elite mewn chwaraeon ysgol.

- Cadarnhawyd mai'r Cyngor Chwaraeon ddylai gadw golwg ar weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Gofynnodd yr aelodau am adroddiad am y modd y mae adroddiad y Tasglu yn cael ei roi ar waith ac am esboniad sut y byddai'r £48 miliwn o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cael ei wario.

- Awgrymwyd y dylai WLGA baratoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am chwaraeon mewn ysgolion ac y gallai'r pwyllgor edrych ar gyfleusterau mewn ysgolion yng Nghasnewydd.

**Pwnc 4 Datblygu'r Seilwaith**

2.5 Rhoddodd Terry Harvey, rheolwr Llandarcy Park Ltd ac Adrian Davies gyflwyniad ar bentref chwaraeon Llandarcy Park. Wedyn, gwnaed y sylwadau a ganlyn:

Roedd galw mawr am gyfleusterau chwaraeon dan-do fel yr un yn Llandarcy, yn enwedig ymhlith clybiau pêl-droed a rygbi. Mae arian preifat wedi'i fuddsoddi yn y datblygiad, ac yn awr, maent yn chwilio am noddwyr cyhoeddus. Nid oes gan y Tîm Pêl-droed Cenedlaethol gyfleuster dan-do parhaol fel hwn. Mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi pob tywydd os ydym am weld Cymru'n llwyddo ar lefel ryngwladol.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Ni fydd angen arian refeniw. Bydd y cyfleuster yn hunan-gynhaliol.
- Bydd ysgolion yn cael defnyddio'r cyfleuster yn ddi-dâl; gan roi hwb i lefelau cymryd rhan ar lefel y gymuned.
- Teimlwyd y gallai cyfleusterau tebyg lwyddo mewn ardaloedd llai poblog.

**<u>10.30am i 11.15am</u>**

**Eitem 3: Cais Caerdydd am fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop**

3.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Arglwydd Faer Caerdydd, Russell Goodway, Lynne Williams ac Yvette Vaughn Jones ar gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Wedyn, cafwyd y sylwadau a ganlyn:

- Cynigiodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r cynrychiolwyr ar ran y Pwyllgor a'r Cynulliad ar gael Caerdydd ar y rhestr fer.

- Roedd y cais yn llwyddiannus am iddo bwysleisio'r dimensiwn Ewropeaidd a dangos bod Cymru'n wlad eang ei gorwelion. Roedd y cais yn pwysleisio diwylliant unigryw Caerdydd a'i bod yn gynrychioliadol o ddiwylliant y Deyrnas Unedig.

- Mae astudiaeth yn dangos bod sector y celfyddydau yn cael effaith economaidd bwysig wrth greu a chynnal swyddi yn y ddinas.
- Roedd llawer o waith i'w wneud eto ar y cynnig gyda grwpiau o bob cwr o'r wlad.
- Mae cynnig i ddatblygu adeilad rhestredig yn Penderys Street, 'The Depot', fel lle i artistiaid o Gymru ac o bob cwr o'r byd i gynhyrchu ac arddangos eu gwaith.
- Mae Caerdydd wedi profi ei bod yn gallu trefnu a chynnal digwyddiadau mawr ar lefel genedlaethol; mae diwylliant yn ei ystyr ehangaf yn awr yn fusnes craidd yng Nghaerdydd.
- Gyda llwyddiant ei chais, dylid edrych ar Gaerdydd fel prifddinas dros Gymru, nid yn brifddinas ar Gymru. Er mwyn manteisio'n llawn ar bopeth y gall y ddinas ei gynnig, rhaid gwella'r cysylltiadau cludiant tua'r gogledd er mwyn gallu mynd â'r gwaith a wneir i bob cwr o'r wlad.
- Gan ddefnyddio'r logo 'Dangoswch imi le da', llwyddodd tîm y prosiect i argyhoeddi'r beirniaid bod gan Gaerdydd gyfoeth diwylliannol ac y byddai'n gallu ysgwyddo'i chyfrifoldebau pe bai'n llwyddiannus.
- Bydd yr holl drefniadau wedi'u gwneud erbyn 2005, ac mae 500 o brosiectau ar y gweill i ddathlu pen-blwydd Caerdydd fel prifddinas. Bydd nifer y prosiectau wedi dyblu erbyn 2008. Bydd digwyddiadau 2005 yn gyfle i'r BCC a'r WDA werthu Caerdydd fel prifddinas ryngwladol.
- I danlinellu'r ffaith fod y cais yn gais dros Gymru gyfan, dywedwyd i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru anfon negeseuon yn llongyfarch Caerdydd.

Oherwydd prinder amser, nid oedd amser i'r aelodau holi'r cyflwynwyr. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Aelodau anfon unrhyw gwestiynau ato ar ôl y cyfarfod.

**Pwyntiau gweithredu:**

Byddai tîm 2008 yn cael gwahoddiad i ddod yn ôl gerbron y Pwyllgor yn y dyfodol.

**<u>11.00am i 11.15am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.15am i 11.45pm</u>**

**Eitem 4: Stadiwm y Mileniwm**

4.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Glanmor Griffiths, Cadeirydd a Thrysorydd Stadiwm y Mileniwm, Bob Evans, Rheolwr y Stadiwm a Simon Lee, Rheolwr Gwerthu a Marchnata. Wedyn, cafwyd y sylwadau canlynol:

Y stadiwm yw un o brif adeiladau Cymru ac Undeb Rygbi Cymru dalodd amdani. O ran ei hariannu, nid yw'r Stadiwm wedi cael digon o nawdd oddi wrth y Cynulliad na'r Swyddfa Gymreig cyn hynny, er gwaetha'r ffaith i Mr Griffiths gael nifer o gyfarfodydd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Comisiwn y Mileniwm roddodd y £46 miliwn ar gyfer y stadiwm, ac mae Rhodfa'r Mileniwm, y cyfrannodd y Cynulliad £3 miliwm ati, yn eiddo i Gyngor y Ddinas, nid y WRU. Mae rygbi fel camp yn haeddu mwy o nawdd. Mae gan bob cymuned yng Nghymru glwb rygbi ac mae pobl yn ei hystyried fel y gamp genedlaethol. Rhaid cynnal digwyddiadau diwylliannol mewn partneriaeth.

4.2 Gwnaed y sylwadau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Mae'r Stadiwm ar dir diogel yn ariannol, mae'n gallu talu costau blynyddol gwasanaethu ei dyledion. Mater arall yw cost ad-dalu'r benthyciad cyfalaf o £60 miliwn. Gwnaed pethau'n anos pan gododd cyfradd y Stadiwm i £1.2 miliwn y flwyddyn.
- Pan gafwyd y trafodaethau gyda Chymdeithas Bêl-droed Lloegr, nid oedd Caerdydd yn dadlau o safle cryf iawn. Gallai'r FA fod wedi dewis stadiwm yn Lloegr, fel Old Trafford, ac roeddynt yn amharod i gynnal gemau mawr yr ochr yma i Glawdd Offa.
- Mae'r WRU wedi ceisio gweithio gyda siopau canol dinas Caerdydd i sicrhau nad ydynt ar eu colled ar ddiwrnodau gêm. Mae un o bob tair gêm ar ddydd Sul. Mae pobl yn gohirio dod i siopa fel arfer, yn hytrach na pheidio â dod o gwbl.
- Y WRU sy'n berchen ar ryddfraint y tir y cafodd y stadiwm ei adeiladu arno.
- Dywedodd y Gweinidog nad oedd yr arian sy'n cael ei dalu i gefnogi Cwpan Ryder, er gwaetha'r gofidiau a fynegwyd, yn cael ei dalu i fan cynnal y twrnamaint - y Celtic Manor. Mae'n cael ei dalu yn hytrach i ddatblygu golff yng Nghymru.
- Dywedodd y Gweinidog fod y £120k a roddir i'r WRU yn cymharu'n dda iawn â'r nawdd a roddir gan Sport England i'r RFU ac i gyrff rheoli campau eraill yng Nghymru. Yn ogystal, roedd clybiau rygbi yng Nghymru wedi cael £4 miliwn oddi wrth y loteri dros y 5-6 blynedd diwethaf.

- Mynegwyd pryder nad oedd y stadiwm yn cael ei defnyddio ddigon i gynnal digwyddiadau diwylliannol. Mae astudiaeth hyfywedd yn cael ei chynnal i gost rhannu'r stadiwm i gynnal digwyddiadau diwylliannol ynddi na fydd yn denu 70,000 o bobl.

**<u>11.45pm i 12.30pm</u>**

**Eitem 5: Ymgynghoriad DCMS ar y Loteri Cenedlaethol**

**CC 17-02(p2)**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a dweud bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a lansiwyd haf diwethaf wrthi'n cael eu hystyried. Yn ôl yr ymatebion, roedd yna gefnogaeth i'r syniad bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cael mwy o lais wrth benderfynu sut mae arian y loteri yn cael ei wario yng Nghymru. Ond nid oedd cefnogaeth i sefydlu un corff i redeg y loteri yng Nghymru. Mae'r Gweinidog yn bwriadu

gwneud datganiad yn y siambr am yr ymgynghoriad.

5.2 Gwnaed y sylwadau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb:

- Dylid defnyddio arian y loteri yng Nghymru i ddwallu anghenion Cymru ac ni ddylid felly ei gyfrif ar sail maint y boblogaeth. Mae'r Gweinidog wedi gwneud yn siwr bod DCMS yn deall y cwestiwn o gyfran canrannol Cymru.
- Mae amrywiaeth ffynonellau arian y loteri yng Nghymru yn golygu bod amrywiaeth eang o grwpiau'n ceisio amdano a bod gan y cyrff sy'n derbyn ceisiadau yr arbenigedd i'w hasesu.

**Materion eraill:**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor y byddai'r Cyfarfod Llawn yn trafod chwaraeon cyn Nadolig.

**12.25 i 12.30pm**

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**CC 16-02 (min)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf gyda'r newidiadau canlynol:

Dylai Para 4.2: 'Ychwanegodd y Gweinidog y gallai'r Cynulliad gyfrannu hyd at £1.1m yn ychwanegol i gefnogi'r broses pe bai'r cais yn cael ei gynnwys ar y rhestr fer' ddarllen fel a ganlyn:

'Gallai'r Cynulliad gyfrannu hyd at £1.2 miliwn dros 2 flynedd. subsidiarity